Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27 Ebrill 2018

Annwyl Elin

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Mawrth, a drafodwyd gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn ei gyfarfod ar 22 Mawrth.

**I ba raddau y mae Brexit yn debygol o effeithio ar waith eich Pwyllgor.**

Mae'n annhebygol y bydd Brexit yn cael effaith fawr ar waith y Pwyllgor. Er bod arian yr UE wedi codi fel mater yn ein Hymchwiliad ar yr Amgylchedd Hanesyddol, mae'n deg dweud nad yw wedi bod yn fater pwysig yng ngwaith cyffredinol y Pwyllgor.

Mae rhaglenni cyllido'r UE yn bodoli mewn llawer o feysydd polisi gwahanol ac mae hyn yn cynnwys ystod o raglenni diwylliannol ac mewn meysydd fel y Diwydiant Ffilm, yr ydym ar hyn o bryd yn cynnal Ymchwiliad Pwyllgor yn ei gylch. Mae'n debygol y bydd angen ystyried effeithiau diddymu neu ddisodli'r ffrydiau cyllido hyn maes o law, ond ymddengys yn debygol y bydd unrhyw ystyriaeth yn ategol i waith arferol y Pwyllgor yn hytrach na'i bod yn ychwanegu'n benodol ato.

Efallai y bydd Brexit hefyd yn effeithio ar sefydliadau fel y Rhwydwaith Cydraddoldeb Ieithoedd Ewrop (ELEN), sydd yn hyrwyddo ac yn cynrychioli ieithoedd lleiafrifol Ewrop, gan gynnwys y Gymraeg. Fodd bynnag, mae hwn yn fudiad anllywodraethol felly nid yw'n debygol y bydd effaith sylweddol ar waith y Pwyllgor. Yn fwy cyffredinol, efallai y bydd effaith o ran y Gymraeg ar bolisïau ieithoedd lleiafrifol yr UE, ond eto mae'r rhain yn anodd eu mesur.

Yn gyffredinol, byddem yn disgwyl i unrhyw oblygiadau cysylltiedig â Brexit mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor gael eu cynnwys o fewn ein hadnoddau a'n capasiti presennol.

**Unrhyw faterion eraill sy’n ymwneud â gallu Aelodau a Phwyllgorau**

Er na fyddwn yn disgwyl i Brexit gael effaith sylweddol ar ein hamser a'n hadnoddau, credwn y byddai unrhyw ostyngiad yng nghapasiti ein Pwyllgor neu'r adnodd staffio sydd ar gael i ni yn gosod terfynau a chyfyngiadau ar ein gallu i

ymgymryd â chraffu ar bolisïau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, a ddylai fod yn brif swyddogaeth Pwyllgorau'r Cynulliad.

Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y byddai hyn yn cael ei ystyried mewn unrhyw benderfyniadau a wneir o ran capasiti Aelodau neu Bwyllgorau.

Yn gywir

**Bethan Jenkins AC**
Cadeirydd